

## PRIFFYRDD, CYMRU

LIC22-

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (ROUND WOOD, MAELFA, LLANEDERN, CAERDYDD) 202-

*Gwnaed* 202-  
*Yn dod i rym* 202-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Round Wood, Maelfa, Llanedern, Caerdydd) 202- a daw i rym ar \*\*\*\*\* 2022.

#### Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr “y plan a adnewyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Round Wood, Maelfa, Llanedern, Caerdydd) 202-” o dan y cyfeirnod qA1561541 sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

#### Cau Priffordd

Yn ddarostyngedig i erthyglau 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 30 Ebrill 2020 o dan y cyfeirnod

(1) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## HIGHWAYS, WALES

WG22 -

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (ROUND WOOD, MAELFA, LLANEDEYRN, CARDIFF) ORDER 202-

*Made* 202-  
*Coming into force* 202-

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

#### Title and Commencement

1. The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Round Wood, Maelfa, Llanedeyrn, Cardiff) Order 202- and it comes into force on \*\*\*\*\* 2022.

#### Interpretation

2. In this Order—

“the Council” (“*y Cyngor*”) means the County Council of the City and County of Cardiff;

“the deposited plan” (“*y planiau a adnewyd*”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (Round Wood, Maelfa, Llanedeyrn, Cardiff) Order 202-” with reference qA1561541 which accompany this Order;

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted;

“the 1990 Act” (“*Deddf 1990*”) means the Town and Country Planning Act 1990.

#### Stopping Up

Subject to articles 4 and 5 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Order and shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable a development to be carried out in accordance with outline planning permission granted

(1) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

19/03219/MJR ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### **Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd**

3. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn—

- (a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;
- (b) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r darn o briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

### **Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr**

4. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r gyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 202-

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

### **ATODLEN 1 (Bras amcan yw pob mesuriad)**

#### **Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar Round Wood, Maelfa, Llanedern, Caerdydd, i gyfeiriad y de-orllewin ac sy'n arwain at yr hen orsaf heddlu, Maelfa, Caerdydd, sydd ag arwynebedd o 630 o fetrau sgwâr ar y mwyaf ac sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 30 April 2020 with reference 19/03219/MJR and described in Schedule 2 to this Order.

### **Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up**

3. The length of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until—

- (a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plan showing how the length of highway is to be stopped up;
- (b) the development described in Schedule 2 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the length of highway to allow the development to proceed; and
- (c) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a) and (b) are satisfied.

### **Statutory Undertakers and Providers**

4. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 202-

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

### **SCHEDULE 1 (All measurements are approximate)**

#### **Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway located on Round Wood, Maelfa, Llanedeyrn, Cardiff, heading in a south westerly direction and leading to the former police station, Maelfa, Cardiff, with a maximum surface area of 630 square metres and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**ATODLEN 2**  
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y Datblygiad**

Bydd y datblygiad yn galluogi dymchwel garejys presennol a datblygu 41 o fflatiau byw'n annibynnol sy'n barod ar gyfer gofal, a gwaith cysylltiedig yn yr hen orsaf heddlu, Maelfa, Llanedern, Caerdydd, CF23 9PN.

**SCHEDULE 2**  
**(All measurements are approximate)**

**The Development**

The development will enable the demolition of existing garages and development of 41no. independent living care-ready flats and associated works at former police station, Maelfa, Llanedeyrn, Cardiff, CF23 9PN.